

Cyfarwyddwr Maint Cymru

Lleoliad: Maint Cymru, Y Deml Heddwch, Caerdydd

Atebol i: Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Yn adrodd i: Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Cyflog: Hyd at £40,000 y.f. a buddion

Maint Cymru

www.sizeofwales.org.uk

Mae Maint Cymru yn elusen genedlaethol uchelgeisiol sy'n tyfu. Mae'n canolbwyntio ar liniaru newid hinsawdd drwy amddiffyn fforest law ac ailgoedwigo. Rydym yn darparu arian cyfatebol i brosiectau cadwraeth cymunedol yn Affrica a De Affrica ac yn cynnal rhaglenni addysg ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth yng Nghymru.

Sefydlwyd Maint Cymru yn 2009 ac mae'i bencadlys yng Nghaerdydd. Rydym yn cael ein hariannu gan y Waterloo Foundation, Llywodraeth Cymru, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd ac ymddiriedolaethau/sefydliadau eraill. Cawn hefyd ein cefnogi gan ysgolion, busnesau a nifer o unigolion.

Ar hyn o bryd rydym yn ariannu prosiectau sy'n ymestyn dros bron i 4 miliwn o hectarau neu bron i ddwywaith 'maint Cymru', ond rydym eisiau gwneud mwy. Mae ein rhaglen o ymweliadau a digwyddiadau mewn ysgolion yn cyrraedd tua 5,000 o ysgolion cynradd a disgyblion uwchradd yng Nghymru bob blwyddyn.

Y broblem danbaid

Mae fforestydd trofannol yn amsugno pumed o allyriadau CO₂ artiffisial ac mae fforestydd yn storio hyd at 100 gwaith mwy o garbon na thir amaethyddol o'r un maint. Nid yn unig bod parhau i ddinistrio'r fforest drwy glirio a llosgi yn difrodi'r system yn ddifrifol ond mae hefyd yn rhyddhau swm mawr iawn o CO₂. Mae ailgoedwigo yn cyfrif am fwy o allyriadau CO₂ na holl drafnidiaeth y byd yn ei gyfanrwydd.

Mae tua biliwn o bobl dlotaf y byd yn dibynnu ar y fforestydd i gynnal eu bywoliaeth ac i'w hamddiffyn. Ymhellach i hynny, y fforestydd glaw yw rhai o'r diffeithwch olaf sydd ar y ddaear ac maent yn gadarnleoedd i fioamrywiaeth sy'n cefnogi dros 50% o rywogaethau daearol.

Eto oll, bob blwyddyn, caiff darn o fforest law sydd *chwe gwaith maint Cymru* (13 miliwn o hectarau) ei ddinistrio. Mae twf yn y boblogaeth yn golygu bod yna fwy o alw am fwyd ac adnoddau naturiol a heb weithredu, bydd hyn yn arwain at fwy o'r fforest law yn cael ei dinistrio - gan greu effeithiau dinistriol i bawb.

Ymateb Maint Cymru

Ein hymateb i'r broblem fyd-eang yma yw gweithio gyda phartneriaid rhyngwladol (fel WWF, FPP a FFI) i gefnogi cymunedau i ddiogelu eu fforestydd trofannol a gaiff eu bygwth yn lleol. Mae brodorion yn stiwardiaid hanfodol i'r fforestydd glaw yn fyd-eang ac mae gweithio yn agos gyda nhw wrth galon ein gwaith.

Drwy ganolbwyntio ar amddiffyn ardal o fforest drofannol, mae Maint Cymru yn darparu fformiwla syml i greu cyswllt rhwng cymunedau'r byd cyntaf a fforestydd a chymunedau'r fforestydd mewn gwledydd datblygedig. Mae hyn hefyd yn darparu ffocws ar gyfer codi arian - caniatáu i gyfranwyr weld effaith y maent yn ei gael ar y cyd ac ar gyfer ein hymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus ac addysgol. Gall y cydsyniad yma gael ei gymhwyso yn unrhyw le ond mae wedi ei arloesi yn llwyddiannus iawn yng Nghymru lle mae yn allweddol i wneud cyswllt a chael cymdeithas sifil Gymreig i ymdrin â phroblemau newid hinsawdd artiffisial.

Rôl Cyfarwyddwr

Bydd y Cyfarwyddwr yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu rhaglen strategol, uchelgeisiol dair blynedd a fydd yn:

- Cryfhau ac ymestyn cyfraniad Maint Cymru i leddfu newid hinsawdd
- Diogelu ffynonellau newydd sylweddol o ariannu er mwyn ehangu ein gwaith
- Datblygu ein rhwydwaith o bartneriaid prosiect rhyngwladol sy'n gweithio i gynnal fforestydd mewn rhanbarthau trofannol
- Cynyddu ein cyfraniad i addysg yng Nghymru (a thu hwnt o bosib)
- Datblygu ffyrdd lle gall cymdeithas sifil yng Nghymru cymryd rhan gryfach ym mhrosiectau Maint
- Cyfathrebu rôl gritigol y fforestydd trofannol yn lliniaru newid hinsawdd

Bydd y Cyfarwyddwr yn gyfrifol am reolaeth dydd i ddydd elusen a Chwmni Cyfyngedig Maint Cymru ynghyd a'r tîm o staff. Bydd ef/hi yn:

- Reolwr Llinell i staff ac ymgynghorwyr
- Adrodd i'r Bwrdd o Ymddiriedolwyr a'u cefnogi
- Rheoli perthnasau gyda phob ariannwr ac adrodd iddynt
- Paratoi a chyflwyno adroddiadau misol a blynyddol a chyfrifon gan gynnwys adroddiadau i'r Comisiwn Elusennau
- Rheoli a chadw cofnodion o arian, cyllidebau a llif arian
- Rheoli cyfrifoldebau AD

Mae'r tîm sy'n adrodd i'r Cyfarwyddwr ar hyn o bryd yn cynnwys swyddog cefnogol (llawn amser), cyfarwyddwr cynorthwyol codi arian (rhan amser) a chydlynnydd rhaglen addysg (rhan amser); ymhlith yr ymgynghorwyr mae yna reolwr ariannol, godwr arian a rheolwr gwefan. Mae gan Maint Cymru grŵp cryf o wirfoddolwyr rheolaidd hefyd.

Yr Ymgeisydd Llwyddiannus

Rydym yn chwilio am ymgeiswyr gyda'r profiad, sgiliau a nodweddion canlynol.

Hanfodol

- Dealltwriaeth o natur fforestydd trofannol, problemau cadwraeth ac ailgoedwigo a'r heriau a chyfleoedd lleol yn enwedig yng ngwledydd Affrica is y Sahara ac America Ladin
- Dealltwriaeth o'r materion gwyddonol sy'n ymwneud â newid hinsawdd gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer ymchwil newydd gwerthfawr
- Profiad sylweddol o arwain, datblygu a chyflawni prosiectau cymhleth ar raddfa fawr a rheoli cyllidebau
- Profiad o ddatblygu a rhoi fframweithiau gwerthuso a monitor ar waith
- Profiad sylweddol o godi arian corfforaethol ac ymddiriedolaeth
- Sgiliau cyfathrebu a chyflwyno da
- Sgiliau rhyngbersonol ac adeiladu consensws da
- Profiad o reoli timau bach a chael gwirfoddolwyr i gymryd rhan
- Hyblygrwydd a'r gallu i reoli a blaenoriaethu gwaith heb oruchwyliaeth agos

Dymunol

- Cymwysterau academaidd mewn maes perthnasol
- Rhugl yn y Gymraeg ar lafar ac ysgrifenedig
- Sgiliau TG gwyb gyda chymhwysedd y gellir ei brofi gyda Microsoft Office, Dropbox a Google Drive
- Profiad o ddefnyddio systemau CRM (er enghraifft HubSpot)

Manylion cytundeb

- Cyflog – £35,000 i £40,000 yn ddibynol ar brofiad; i'w adolygu yn flynyddol.
- Hyd cytundeb - Tair blynedd hyd at 31^{ain} Mawrth 2020, yn ddarostyngedig i adolygiad blynyddol a'r posibilrwydd o'i ehangu yn ddibynol ar ariannu. Bydd yna gyfnod prawf o 3 mis.
- Oriau – Dyma swydd lawn amser am 40 awr yr wythnos. Weithiau bydd gofyn gweithio gyda'r nosau a phenwythnosau. Rydym yn gweithredu polisi gweithio oriau hyblyg.
- Pensiwn – Mae Maint Cymru yn cynnig cyfraniad pensiwn o 6%.
- Gwyliau blynyddol - 30 diwrnod gan gynnwys gwyliau banc.
- Dyddiad Cau – 12pm Ebrill 10^{fed}
- Dyddiad Cyfweliad – Ebrill 25^{ain}

Ceisiadau drwy lythyr a CV cefnogol i joinus@sizeofwales.org.uk (rhowch 'Cyfarwyddwr, Maint Cymru, [eich enw]' yn y pwnc.)